Disgrifiad o'r Swydd a Manyleb Person

Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd (Cymru)

Cefndir

Corff cenedlaethol ar gyfer dringwyr, cerddwyr a mynyddwyr yng Nghymru a Lloegr yw Cyngor Mynydda Prydain. Mae gan y sefydliad dros 75,000 o aelodau, 30 o staff, 250 o glybiau cysylltiedig a rhwydwaith cenedlaethol o wirfoddolwyr. Bydd y swydd newydd hon yn datblygu a hyrwyddo polisïau Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru ar amrywiaeth eang o faterion sy'n gysylltiedig â mynediad, yr amgylchedd, cyfranogiad, pobl ifanc, amrywiaeth, cynhwysiant a materion cysylltiedig. Mae'r swydd yn gofyn am berson llawn cymhelliant sydd wedi profi ei hun tra'n gweithio ar lefel polisi, angerdd gwirioneddol am yr awyr agored a sgiliau cyfathrebu cryf.

Cyflogwr:	Cyngor Mynydda Prydain
Teitl y Swydd:	Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd (Cymru)
Lleoliad:	O fewn pellter teithio rhesymol i Gaerdydd
Cyflog:	£32,000 y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn yn ogystal â buddion gan gynnwys pensiwn, gofal iechyd ac yswiriant bywyd ar ôl y cyfnod cymhwyso; telir £19,200 yn seiliedig ar 3 diwrnod yr wythnos
Math o gontract:	Contract parhaol rhan-amser (y gyllideb yn seiliedig ar benodiad 3 diwrnod yr wythnos yn amodol ar drafodaeth unigol)
Adrodd i:	Pennaeth Mynediad, Cadwraeth a Chynaliadwyedd Amgylcheddol
Cysylltiadau Pwyllgor:	Pwyllgor Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru (is-bwyllgor o Fwrdd Cyngor Mynydda Prydain) a phwyllgorau rhanbarthol Cyngor Mynydda Prydain ar gyfer Gogledd, De a Chanolbarth Cymru
Cysylltiadau staff allweddol:	Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda staff Cyngor Mynydda Prydain, gan ymdrin â pholisi, ymgyrchoedd a gwaith lobïo yng Nghymru a Lloegr

Pwrpas craidd

I gydlynu â gwirfoddolwyr, staff, clybiau ac aelodau Cyngor Mynydda Prydain er mwyn trefnu a rheoli datblygiad polisïau Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru er lles gorau dringwyr, cerddwyr bryniau a mynyddwyr. I ymgysylltu â'r Senedd, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau allweddol y Llywodraeth (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru a Chwaraeon Cymru) i hyrwyddo buddiannau dringwyr, cerddwyr bryniau a mynyddwyr. I fod yn llefarydd allweddol o ran Maniffesto Cyngor Mynydda Prydain ar gyfer Cymru* ac yn hyrwyddwr materion sy'n benodol i Gymru o fewn Cyngor Mynydda Prydain, gan gynnwys polisi'r iaith Gymraeg.

Cyfrifoldebau penodol

Gan weithio'n agos gyda strwythur pwyllgor gwirfoddol Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru, prif gyfrifoldebau'r swydd fydd:

- Hyrwyddo safbwynt Cyngor Mynydda Prydain ar faterion allweddol fel y'u nodir yn y Maniffesto ar gyfer Cymru a gweithredu fel llefarydd ar ran dringwyr, cerddwyr bryniau a mynyddwyr ar lefel polisi yn y Senedd, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau allweddol; cynorthwyo i sefydlu a gweithredu Grŵp Trawsbleidiol sy'n cwmpasu gweithgareddau awyr agored yng Nghymru.

- Datblygu polisïau newydd ar faterion allweddol sydd o bwys i ddringwyr, cerddwyr bryniau a mynyddwyr; ymgysylltu ac ymgynghori ag aelodau Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru i bennu'r dulliau gorau posib o gyflwyno'r safbwyntiau polisi yng Nghymru.

- Ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth, dogfennau cynllunio a chynigion datblygu sy'n ymwneud â materion o bwys cenedlaethol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, defnydd tir ar ôl Brexit, amaethyddiaeth, tirweddau dynodedig, llesiant a chynhwysiant.

- Hyrwyddo a chyflwyno rhaglen newid hinsawdd Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru.

- Hyrwyddo manteision economaidd-gymdeithasol hamdden awyr agored ar draws y Senedd, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau allweddol; annog cyfleoedd i bobl yng Nghymru brofi'r awyr agored a chael mynediad at amgylchedd y bryniau a'r mynyddoedd.

- Cynrychioli Cyngor Mynydda Prydain i Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru; datblygu cysylltiadau gyda chyrff llywodraethu a chynrychiadol cenedlaethol perthnasol eraill yng Nghymru.

- Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Mountain Training Cymru, Cymdeithas Waliau Dringo Prydain, Plas y Brenin a'r Bartneriaeth Awyr Agored i ddatblygu a hyrwyddo polisïau ac ymgyrchoedd sydd o fudd i'r ddwy ochr; sefydlu partneriaethau newydd gyda chyrff cymdeithas sifil yng Nghymru lle bo'n briodol.

- Gweithio gyda thîm Swyddog Mynediad a Chadwraeth Cyngor Mynydda Prydain i rannu syniadau ac arfer da er mwyn datblygu polisïau ac ymgyrchoedd sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr; cysylltu â chydweithwyr yn Mountaineering Scotland a Mountaineering Ireland yn ôl yr angen.

- Cefnogi Pwyllgor Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru a mynychu'r cyfarfodydd a phwyllgorau eraill Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru yn ôl yr angen.

- Arwain ar ddatblygu a chyflwyno hunaniaeth Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru, gan gynnwys polisi'r iaith Gymraeg (fel y cytunwyd ym mis Tachwedd 2019) a'r broses o'i integreiddio i swyddogaethau swyddfa ganolog Cyngor Mynydda Prydain, y cyfryngau a digwyddiadau; gwneud cyfraniad positif i statws y Gymraeg yng ngwaith Cyngor Mynydda Prydain.

* Sylwer: Disgwylir i'r maniffesto gael ei gyhoeddi ganol Chwefror - ewch i wefan Cyngor Mynydda Prydain i'w weld.

Sgiliau Allweddol a Manyleb Person	**Hanfodol / Dymunol**
Profiad gwaith perthnasol sylweddol a hanes o ymgysylltu positif ar lefel polisi mewn sector cysylltiedig.	Hanfodol
Profiad a dealltwriaeth o faterion mynediad, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n berthnasol i ddringwyr, cerddwyr bryniau a mynyddwyr yng Nghymru.	Hanfodol
Diddordeb ac ymgysylltiad brwd mewn gweithgareddau dringo, cerdded bryniau a mynydda ac angerdd am ryddid cyfranogwyr i barhau i fwynhau'r gweithgareddau hyn.	Hanfodol

Sgiliau rhyngbersonol gwych; y gallu i ennyn hyder ac ymddiriedaeth ar lefel uwch ar draws asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau partner ac aelodau Cyngor Mynydda Prydain.	Hanfodol
Sgiliau cyfathrebu gwych, ar lafar ac ar bapur.	Hanfodol
Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad positif o natur ddwyieithog Cymru, a diddordeb mewn datblygu sgiliau Cymraeg os nad yn rhugl yn barod.	Hanfodol
Yn ymarferol, yn llawn cymhelliant ac yn gallu gweithio'n effeithiol o dan bwysau ac i derfynau amser tynn.	Hanfodol
Trwydded yrru lawn, parodrwydd i deithio i Gaerdydd a lleoliadau eraill yn Ne Cymru yn rheolaidd (ac i fannau eraill yn y DU o bryd i'w gilydd) a gweithio weithiau gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ôl yr angen.	Hanfodol

Siarad Cymraeg (dymunol iawn).	*Dymunol*
Profiad o geisiadau grant ac asiantaethau cyllido neu sgiliau codi arian eraill.	*Dymunol*
Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a phwyllgorau.	*Dymunol*

Dyddiad: Chwefror 2021

Os nad ydych yn bodloni gofynion y Gymraeg a nodwyd h.y. yn gallu deall ymadroddion sylfaenol a'r gallu i ynganu enwau Cymraeg yn gywir, yna bydd Cyngor Mynydda Prydain yn cynnig cymorth i'ch helpu i gyflawni'r gofynion lleiaf hyn yn ystod eich cyflogaeth gyda ni.

Mae Cyngor Mynydda Prydain wedi ymrwymo'n llawn i gyfle cyfartal i bob ymgeisydd am swydd a'i nod yw dewis pobl ar gyfer swydd ar sail eu sgiliau, eu galluoedd, eu profiad, eu gwybodaeth a, lle bo'n briodol, eu cymwysterau a'u hyfforddiant. Fel sefydliad cynrychioliadol, sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr, rydym yn croesawu'r rheini sy'n gallu darllen a siarad Cymraeg.